# Arferion darllen plant yn y blynyddoedd cynnar

## Ymchwil gyda theuluoedd o gefndiroedd incwm isel yn y Deyrnas Unedig

### Cyflwyniad

**Mae ymchwil yn dangos bod darllen yn y blynyddoedd cynnar yn rhoi manteision dwys ac eang i blant a all gael effaith gadarnhaol gydol oes. Ar adeg pan fo'r bwlch anfantais yn tyfu, mae deall arferion darllen ac ymddygiad plant o deuluoedd incwm isel yn hanfodol i unrhyw un sy'n cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar ac sy'n dymuno rhoi'r dechrau gorau iddyn nhw mewn bywyd.**

### Ynglŷn â'r briff hwn

Mae'r briff hwn yn rhoi trosolwg o ymchwil BookTrust i arferion darllen plant yn y blynyddoedd cynnar ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Drwy rannu'r canfyddiadau hyn, rydym yn gobeithio ysbrydoli ein partneriaid, ymarferwyr ehangach a llunwyr polisi i gynorthwyo plant a theuluoedd i rannu llyfrau a storïau gyda'i gilydd fel bod gan bob plentyn, wrth iddyn nhw dyfu, y potensial i fod yn ddarllenwr gydol oes.

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o friffiau ymchwil y bydd BookTrust yn eu cyhoeddi yn 2023.

**Mae lefelau darllen ar y cyd yn ddyddiol ar eu huchaf rhwng 2 a 4 oed, ac wedyn yn gostwng**

% y plant sydd â rhywun yn darllen gyda nhw'n ddyddiol




Mae **95%** o rieni a gofalwyr **yn ystyried bod darllen yn bwysig** i'w plentyn

Mae **77%** o deuluoedd yn dechrau rhannu llyfrau â'u plentyn **cyn eu pen-blwydd cyntaf**

Dydy **28%** o rieni a gofalwyr **ddim yn ei chael hi'n hawdd darllen gyda'u plentyn**

Dydy **21%** o rieni a gofalwyr **ddim yn teimlo'n hyderus yn dewis llyfrau** y bydd eu plentyn yn eu mwynhau

Mae **20%** o rieni a gofalwyr yn dweud nad ydyn nhw'n darllen gyda'u plentyn oherwydd **diffyg amser**

## Beth mae'r ymchwil yma yn ei ddweud wrthym ni?

Mae rhieni a gofalwyr yn ystyried bod darllen gyda'u plant yn bwysig ac er bod y mwyafrif yn rhannu storïau â'u plant ym mlwyddyn gyntaf eu bywydau, nid yw bron chwarter y teuluoedd yn gwneud hynny. Mae'r arfer o ddarllen ar y cyd yn rheolaidd yn digwydd fwyaf pan fo plant rhwng dwy a phedair oed ac yna mae'n dechrau gostwng yn sylweddol, gan barhau i ostwng drwy gydol plentyndod. Mae hyn yn golygu bod llawer o blant yn colli allan ar gyfleoedd rheolaidd i ddarllen ar y cyd ac i ymgyfarwyddo â llyfrau a storïau ac, felly, y cyfle i fwynhau'r manteision dwys ac eang a ddaw yn sgil darllen.

Mae diffyg amser oherwydd pwysau gwaith neu fywyd teuluol a diffyg hyder wrth ddewis llyfrau y bydd eu plentyn yn eu mwynhau ymhlith y prif rwystrau sy'n atal teuluoedd rhag darllen gyda'i gilydd. At hynny, nid yw dros chwarter rhieni a gofalwyr yn ei chael hi'n hawdd darllen gyda'u plant ifanc.

Mae'r rhain yn faterion cymhleth sy'n galw am weithio mewn ffordd sy'n newid ymddygiad er mwyn helpu teuluoedd i ddarllen mwy gyda'u plant, ac i barhau i ddarllen ar y cyd drwy gydol y blynyddoedd cynnar a thu hwnt. Felly mae gwneud yr arfer o rannu storïau gyda phlant yn hawdd ac yn bleserus i deuluoedd yn allweddol.



## Methodoleg Ymchwil

Cynhaliodd BookTrust arolwg ar-lein o 2,148 o rieni a gofalwyr plant 0-7 oed sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022. Rydym yn defnyddio'r term teuluoedd incwm isel i olygu'r rhai sy'n byw mewn tlodi cymharol yn ôl diffiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau.

> "Mae Amelia yn dechrau dangos diddordeb mawr mewn llyfrau nawr. Rydyn ni'n gobeithio y bydd darllen llyfrau gyda hi yn chwe mis oed yn dod yn beth arferol iddi. Mae'n braf iawn eich bod chi'n gallu neilltuo pump neu ddeg munud dim ond i gael yr amser yna lle rydych chi i gyd yn eistedd gyda'ch gilydd yn edrych ar lyfrau. Y peth y gallwch chi ei deimlo yw'r cynhesrwydd yna o fod gyda'ch gilydd. Mae'n help mawr i mi fel mam, a gobeithio ei fod yn eu helpu nhw hefyd."
>
> **Liz, o Swydd Amwythig, sy'n fam i dri o blant gan gynnwys Amelia fach**

## Pam fod darllen yn bwysig i blant?

Ar adeg pan fo teuluoedd yn wynebu pwysau amrywiol a chystadleuol ar eu hamser a'u harian, pOam ei bod mor bwysig buddsoddi mewn cefnogi teuluoedd i rannu llyfrau a straeon?

Mae wedi'i brofi bod darllen a rhannu storïau yn rhoi manteision dwys ac eang i blant a all effeithio ar eu hiechyd, eu lles, eu cynnydd yn yr ysgol a'u creadigrwydd. Mae darllen ar y cyd yn cynnig manteision uniongyrchol i deuluoedd hefyd. Mae'n hybu bondio rhwng plant a'u rhieni, gofalwyr neu aelodau eraill o'r teulu, yn hybu positifrwydd rhieni, ac yn helpu plant i gysgu'n well.

Mae ymennydd plant yn tyfu fwyaf yn eu pum mlynedd gyntaf. Yn y blynyddoedd cynnar hyn, mae ysgogiad o lyfrau, a defnyddio llyfrau, storïau a rhigymau fel ffocws ar gyfer chwarae, siarad, a chanu, yn gwella twf a datblygiad gwybyddol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i blentyndod.

Os bydd plant yn darllen yn rheolaidd yn ystod eu plentyndod cynnar, gwyddom eu bod yn fwy tebygol o barhau i ddarllen wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn. Mae darllen er pleser yn y blynyddoedd cynnar yn cael effaith bedair gwaith yn fwy pwerus ar gynnydd plentyn ar draws y cwricwlwm yn 16 oed nag addysg rhieni neu statws economaidd-gymdeithasol.

Bydd plant o gefndiroedd incwm isel yn elwa hyd yn oed yn fwy ar fanteision uniongyrchol a thymor hwy yr arfer o ddarllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar. Yn ôl y dystiolaeth, mae plant o gefndiroedd difreintiedig sy'n cyflawni ar lefel uchel ar ddiwedd yr ysgol gynradd ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi bod â rhywun yn darllen iddyn nhw gartref yn eu blynyddoedd cynnar o gymharu â'u cyfoedion. Yn y tymor hir, mae gan ddarllen y potensial i drawsnewid cyfleoedd bywyd plant yn y dyfodol. Mae gan blentyn sy'n tyfu i fyny mewn tlodi ac sydd â rhywun yn darllen iddyn nhw yn bump oed obaith sylweddol uwch o lwyddiant economaidd yn eu 30au na'u cyfoedion a oedd heb rywun yn darllen iddyn nhw.

Mae'n hanfodol nad yw plant o gefndiroedd teuluol incwm isel a bregus yn colli allan ar y manteision trawsnewidiol sydd i ddarllen ar y cyd yn eu blynyddoedd cynnar. Dyna pam fod BookTrust yn darparu cymorth ychwanegol i'r teuluoedd hyn, gan sicrhau bod ein llyfrau, ein hadnoddau a'n cymorth yn cyrraedd ac yn darparu ar gyfer y plant a'r teuluoedd sydd ein hangen fwyaf.

Darllenwch fwy am fanteision darllen fan yma

> “Mae'r bwlch anfantais cynyddol rhwng plant o deuluoedd incwm isel a'u cyfoedion mwy cefnog yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar ac yn parhau drwy gydol eu plentyndod. Fel mater o frys, mae angen i unrhyw drafodaeth am gefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar gynnwys camau a fydd yn cymell ac yn annog plant a theuluoedd i rannu storïau â'i gilydd fel y gallan nhw brofi manteision darllen yn uniongyrchol ac yn y tymor hwy. Mae BookTrust wedi ymrwymo i gynorthwyo teuluoedd drwy gynnig ymyriadau cost-effeithiol a dylanwadol fel y gallan nhw fwynhau profiadau darllen ar y cyd. A wnewch chi ymuno â ni?”
>
> **Diana Gerald, Prif Weithredwr, BookTrust**

## Ynglŷn â BookTrust

Fel yr elusen ddarllen fwyaf i blant yn y Deyrnas Unedig, rydym am i bob plentyn ddarllen yn rheolaidd a thrwy ddewis. Rydym yn cyrraedd dros ddwy filiwn o blant a theuluoedd bob blwyddyn, gan eu hysbrydoli â llyfrau ac adnoddau i'w rhoi ar ben ffordd ar eu taith ddarllen. Rydym yn darparu ystod eang o lyfrau, adnoddau a chymorth sydd wedi'u curadu a'u dylunio'n ofalus i helpu teuluoedd i ddechrau rhannu storïau a pharhau i ddarllen drwy gydol eu plentyndod. Rydym yn cynnig mwy o gymorth wedi'i dargedu i deuluoedd o gefndiroedd incwm isel a bregus oherwydd ein bod yn gwybod mai'r plant hyn fydd yn elwa fwyaf o fanteision darllen.

Mae ein cymorth yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ac mae wedi'i ddylunio i newid ymddygiad at ddarllen. Caiff ei ddatblygu mewn partneriaeth â theuluoedd ac ymarferwyr arbenigol i greu profiadau darllen ar y cyd sy'n llawn ysbrydoliaeth ac sy'n bleserus i blant a theuluoedd.

Diolch i rwydwaith anhygoel o bartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, llyfrgelloedd a mwy ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gallwn gyrraedd teuluoedd lle maen nhw, yn eu cymunedau lleol.

### Dechrau Da

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, cyrhaeddodd ein llyfrau ac adnoddau Dechrau Da dros 700,000 o deuluoedd sydd â phlant yn eu blynyddoedd cynnar, a hynny mewn dros 5,000 o wahanol leoliadau cymunedol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

BookTrust
Getting children reading

**Cysylltwch â ni**

queries@booktrust.org.uk

booktrust.org.uk

@Booktrust

©2023 BookTrust. Rhif elusen: 313343

LOTTERY FUNDED | Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

